CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 7fed o Ebrill 2015 yn Yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol
Cadeirydd: Enid Cole
Cynghorwyr: Ieuan Davies, Julie Charlton, Ceirwyn John, Alwyn Evans, Llinos Davies, Lon Davies
Cynghorydd Sir: Cyng Keith Lewis
Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:-

Cofnodion 03.03.2015
Cynigodd Llinos Davies ac eiliodd Ieuan Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

1. Diolchodd y Cyng. Keith Lewis I Enid Cole ac Julie Charlton am fynychu y cyfarfod yn Ysgol Y Preseli – Ymgynghori ar arbedion.

Gohebiaeth
1. Llythyr wrth Cymdeithas Treftadaeth Eglwyswrw a'r Fro –Llythyr I ddiolch am y cyfraniad o £900 tuag at y Prosiect Carreg Cofeb y Rhyfel Byd 1af.
2. Llythyr wrth Cymdeithas Hanes Eglwyswrw a'r Fro – Cyn trafod dangosodd Enid Cole ac Ieuan Davies ei diddordeb yn y mater. Llythyr ynglyn a defnydd o wefan y Gymdeithas Hanes ar gyfer rhoi cofnodion y Cyngor Cymuned. Cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Ceirwyn John I dalu yr anfoneb o £30.00. Penderfynnwyd hefyd oherwydd bod y cofnodion yn cael ei rhoi ar wefan Y Cyngor Sir na fyddwn yn danfon o hyn ymlaen I'r Cymdeithas Hanes. Helen I cysylltu a Wil Thomas er mwyn cadarnhau hyn.
3. Llythyr Cyngor Sir Benfro – Ymgynghoriad oriau safle ailgylchu lleol – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac hefyd fe fydd y wybodaeth yn yr hysbysfwrdd.
4.Gwybodaeth taith trwy Sir Benfro- Pasiwyd y gwybodaeth I pawb ac hefyd fe fydd yr hysbyseb yn yr hysbysfwrdd.
5.Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Pantyrodyn Eglwyswrw. Llythyr I cadarnhau bod y cais wedi ei dderbyn.
6. Cyngor Sir Benfro – Corff Llywodraethol Ysgol Eglwyswrw – Cyn trafod gwnaeth Alwyn Evans ac Llinos Davies ddatgan eu diddordeb yn y mater. Llythyr I hysbysebu fod tymor Alwyn Evans yn dod I ben fel Llywodraethwr yr Ysgol yn mis Mehefin. Ar ol trafod cynigodd Lon Davies ac eiliodd Ieuan Davies I rhoi enw Alwyn Evans yn ol ar y rhester. Helen I cysylltu ar Cyngor Sir.
7. Llythyr wrth Robert Smith ar rhan Eglwys St. Cristiolus Eglwyswrw – Gwyl flodau, Lluniau a chrefftau – Llythyr I ofyn am gymorth ariannol ar gyfer yr ŵyl. Cynigodd Alwyn Evans ac eiliodd Ceirwyn John rhodd o £100.00
8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. a Mrs. K Davies Delfan Ffynnongroes. Cyn trafod dangosodd Lon Davies ei diddordeb yn y mater. Cais ar gyfer estyniad , garej a mynediad newydd.

9. Cyfanswm yn y banc 25.3.15 £2,279.20
10. Cinio Blynyddol –Ar ol trafod cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Ceirwyn John I Helen gysyltu a Salutation Inn Felindre Farchog – Dyddiad os yn bosib dechrau Mis Mehefin a chinio cig eidion.

Unrhyw Fater arall

1. Cantref Gwasanaeth Pobl Hyn – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac fe fydd yr hysbyseb yn yr hysbysfwrdd.
2. Macmillan Cancer Care – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb ac fe fydd yn yr hysbysfwrdd.
3. Llythyr wrth Sarah Moore ynglyn a Sefydlu'r Parchedig Peter Ratcliffe – Dydd Sul Ebrill 26ain 2015 eisiau cynrhychiolaidd wrth y Cyngor Cymuned. Fe ddywedodd Julie Charlton, Enid Cole a Keith Lewis fe fydden yn mynychu y cwrdd. Helen I cysylltu I gadarnhau.
4. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Gwybodaeth diweddaraf ar ceisiadau cynllunio o fewn y Parc Cenedlaethol. Darllenwyd y wybodaeth yma I pawb.
5. Fe ddywedodd Llinos bod yna matres gwely a sbwriel wedi cael ei adael ar ochr y ffordd ar heol y mynydd. Cyng. Keith Lewis I ddilyn lan.
6. Cododd Llinos fod yna cwyn wedi dod wrth y cyhoedd ynglyn a pridd yn cael ei ollwng ar ochr y ffordd yn ardal Brynberian. Cyng.Keith Lewis I ddilyn y sefyllfa I fyny

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 5ed o Fai am 8.00y.h.
Terfynwyd y cyfarfod am 9.00 y.h.